

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE
DYDD LLUN, 13 MAWRTH 2017 am 10.00 y bore	MONDAY, 13 MARCH, 2017, at 10:00 a.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

ANNIBYNNOL /INDEPENDENT

Jim Evans, Victor Hughes, G O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP

Peter S.Rogers

HEB YMUNO/UNAFFILIATED

R LI Jones

AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeining / The Roman Catholic Church);
Mrs Anest G.Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

4 **COFNODION CYFARFODYDD 6 CHWEFROR, 2017** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar –

- 6 Chwefror, 2017 (bore)
- 6 Chwefror, 2017 (prynhawn)

5 **MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CHWARTER 3 2016/17**
(Tudalennau 13 - 28)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorio am Chwarter 3 2016/17.

6 **MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB REFENIW CHWARTER 3 2016/17**
(Tudalennau 29 - 42)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw am Chwarter 3 2016/17.

7 **MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 3 2016/17**
(Tudalennau 43 - 56)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 3 2016/17.

8 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 57 - 60)

Cyflwyno Blaen Raglen Waith y Pwyllgor.

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2017 (A.M.)

PRESENNOL:

Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws,
R. Llewelyn Jones

Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)

Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaeth

Y Cynghorydd Dylan Rees

Aelodau Portffolio

Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid)
Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau
Cymdeithasol),
Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg)

WRTH LAW:

Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella
Gwasanaethau)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151
Rheolwr Rhaglen, Perfformiad a Chynllunio Busnes (GM)
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Dysgu
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff
Pennaeth Gwasanaethau Democraidd
Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant
Rheolwr Sgriwtini Dro (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng
Nghymru), y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a
Phartneriaeth)

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Y Cynghorydd John Griffith, Aelodau Fforwm Ieuenctid Môn Llais Ni

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r holl Aelodau a Swyddogion i'r cyfarfod ac yn arbennig i aelodau Llais Ni oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2017/18.

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

3 DIWEDDARAID GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wrth y Pwyllgor nad oedd ganddynt unrhyw faterion i adrodd arnynt.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 21 TACHWEDD, 2016

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi -

- Dywedodd y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro y bydd unrhyw feysydd y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei fod angen esboniad a / neu eglurhad arnynt mewn perthynas â'r rôl Sgrwtini yng nghyswllt y Rhaglen Drawsnewid a'r byrddau prosiect yn cael sylw fel rhan o'r adolygiad sgrwtini sydd wedi cychwyn yn ddiweddar.
- Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yr adroddiad Archwilio Allanol y disgwylir amdano ynghylch salwch ar gael eto; byddai dyddiad tebygol cyhoeddi'r adroddiad yn cael ei godi fel mater mewn cyfarfod gyda swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddarach yn yr wythnos. Cadarnhaodd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol.
- Gyda golwg ar gynnwys y Gwasanaeth Anabledd Dysgu fel pwnc ar gyfer sesiwn friffio i'r Aelodau, dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y bydd nifer o eitemau'n cael eu cynnwys yn y sesiynau briffio a gynhelir cyn diwedd cyfnod y Cyngor hwn a bod pynciau ychwanegol yn cael eu cynnig rhwng nawr a mis Mawrth.

5 CYNRYCHIOLAETH AR Y BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro yn gofyn am enwebiad o blith aelodau'r Pwyllgor i wasanaethu fel cyswllt y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol ar y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. 'Roedd yr adroddiad yn crynhoi cefndir a chyd-destun y cais a gododd o gasgliadau ac argymhellion y Panel Canlyniad Sgrwtini ar faterion Diogelu a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2016. 'Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gylch gorchwyl y Bwrdd Diogelu Corfforaethol er mwyn helpu i wneud y dewis.

Penderfynwyd enwebu Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol i wasanaethu fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar Fwrdd Diogelu Corfforaethol Ynys Môn.

6 GOSOD CYLLIDEB 2017/18 (CYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF)

Cyflwynwyd, i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro. 'Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun i'r broses o osod cyllideb 2017/18 ynghyd â'r materion a'r cwestiynau allweddol ar gyfer Sgrwtini wrth werthuso'r cynigion ar gyfer y Gyllideb, ac 'roedd yn ymgorffori'r dogfennau canlynol -

6.1 Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2017/18 (Atodiad 1)

Crynhodd y Cadeirydd y broses ar gyfer gosod y gyllideb hyd yma, gan gynnwys archwiliad y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol o'r cynigion cychwynnol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2016 cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ar ôl yr ymarfer ymgynghori, lluniwyd set o gynigion terfynol a oedd yn cymryd i ystyriaeth yr adborth gan y cyhoedd ac 'roedd y rheini wedi eu cyflwyno i'r cyfarfod heddiw am sylw cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror 2017 i'w hargymell yn ffurfiol i'r Cyngor llawn ar ddiwedd y mis hwn.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y cynigion cyllidebol cychwynnol wedi nodi £2.9m o arbedion ar sail y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru a chynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor. Cyhoeddwyd ffigyrau'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr, 2016 ac arweiniodd hynny at gynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun ar gyfer Cymru ac, o ganlyniad, cafodd Ynys Môn £0.364m ychwanegol o gymharu â'r ffigwr dros dro. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymryd hyn i ystyriaeth, yn ogystal â'r angen i ailasesu'r pwysau ar wasanaethau; sef pwysau a deimlir fwyaf yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion a hefyd yn y Gyllideb Addysg All-Sirol fel yr amlinellir yn adran 5 yr adroddiad. Mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi adolygu'r arbedion a gyflwynwyd ac mae wedi nodi nad oes modd cyflawni gwerth £314k o arbedion yn 2017/18 (Tablau 3 a 4 yr adroddiad).

Mae Tabl 6 yr adroddiad yn cymharu'r taliadau a godir am y Dreth Gyngor yn Ynys Môn â'r rheini a godir gan yr awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru ac mae Tabl 7 yn nodi effaith y gwahanol godiadau yn lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18. Mae'r adroddiad hefyd yn mynd i'r afael â'r risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig sy'n ymgorffori nifer o dybiaethau ynghylch lefelau tebygol incwm a gwariant yn y dyfodol. Mae'r manylion i'w gweld yn adran 7.

Ar ôl ystyried y cyllid sydd ar gael a'r cynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun ers llunio'r cynigion cyllidebol cychwynnol, yn ogystal â chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi diwygio ei gynigion terfynol ar gyfer y gyllideb ac mae'r prif newidiadau i'w gweld yn adran 10 yr adroddiad. Mae Tabl 8 yn yr adroddiad yn crynhoi'r gofynion a'r cyllid y bydd ei angen i ddarparu cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18.

Cyfeiriodd y Swyddog at adran 13 yr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg strategol o'r sefyllfa bosib yn y tymor canol ac a oedd yn nodi'r senario orau a'r senario waethaf (Tablau 9 a 10 yn y drefn honno). Cyflwynir Strategaeth Ariannol Tymor Canol ddiweddaedig i'r Pwyllgor Gwaith wrth i wybodaeth am y setliadau a geir yn y dyfodol ddod yn gliriach.

Diolchodd yr Aelod Portffolio Cyllid i'r Gwasanaeth Cyllid am arwain ar y broses o osod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf ym mis Ebrill y llynedd, a hefyd, i'r holl gynghorwyr am gyfrannu at y broses a'i gwnaeth yn un gynhwysol a chynhwysfawr. Rhaid diolch hefyd i Llais Ni am yr adborth adeiladol a gafwyd gan eu haelodau. Cyllid gan Lywodraeth Cymru yw'r rhan fwyaf o gyllideb y Cyngor a gwelwyd cynnydd o 0.5% yn yr arian hwnnw ar gyfer 2017/18 ond nid yw hynny'n ddigon i gadw i fyny â'r gyfradd chwyddiant nac i gwrdd â'r pwysau ar wasanaethau, a dyna pam 'roedd angen darganfod arbedion. Wrth gymhwyso'r angen i wneud arbedion i wasanaethau'r Cyngor, gwnaed ymdrech i wneud hynny mewn ffordd a oedd mor deg ag y bo modd. Fodd bynnag, mae'r angen i ddod o hyd i arbedion yn debygol o barhau yn y blynyddoedd i ddod ac yn yr hinsawdd hon o galedi parhaus rhaid troi pob carreg yn yr ymgyrch i wneud gwasanaethau mor effeithlon ag y bo modd o fewn yr adnoddau sydd ar gael a chyda'r effaith leiaf ar drigolion yr Ynys. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi dangos ei barodrwydd i wrando ar y prif negeseuon o'r ymgynghoriad cyhoeddus fel y dangosir gan y newidiadau a wnaed i'r gyllideb a amlygir ym mharagraff 10 yr adroddiad; mae iechyd cyffredinol statws ariannol y Cyngor wedi caniatáu rhyddid iddo ymateb yn gadarnhaol i'r prif bryderon a fynegwyd gan y cyhoedd ar yr Ynys.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar, a chodwyd y materion canlynol -

- **Nododd y Pwyllgor y rhagwelir gorwariant net ar gyllidebau gwasanaeth o £756k ar hyn o bryd ar gyfer 2016/17 a gofynnodd am sicrwydd bod buddsoddiadau a gynlluniwyd ar gyfer 2017/18 yn cael eu symud i feysydd a oedd yn gorwario fel meysydd blaenoriaeth.** Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaethau Plant a'r Gyllideb Addysg All-Sirol gan eu bod yn gyllidebau a arweinir gan y galw a lle mae'r pwysau mwyaf a'r risg fwyaf o orwario yn sgil hynny e.e. mae Tîm Trothwy Gofal yn cael ei sefydlu yn y Gwasanaethau Plant fel mesur ataliol ac ymyrraeth gynnar i helpu plant i aros gartref. Mae'r sefyllfa'n newid yn barhaus yn y gwasanaethau wrth i lefel y galw amrywio. Fodd bynnag, er bod rhai gwasanaethau yn gorwario, mae'r sefyllfa yn cael ei gwrthbwysio i raddau helaeth yn sgil tanwariant ar gyllidebau corfforaethol

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y gwahaniaeth mewn dulliau gweithredu gan fod y gostyngiad o £35k yn y grant i'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei ohirio yn 2017/8 tra bod yr arbediad o £490k mewn perthynas â chostau cynorthwywyr dysgu'n cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y bydd yr arbediad ar y Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei ailgynnwys yn y cymysgedd o gynigion arbedion gwasanaeth pan fydd y Cyngor yn pennu ei gyllideb ar gyfer 2018/19; mae defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r arbediad ar gostau cynorthwywyr dysgu'n caniatáu amser a sgôp i ysgolion lunio cynllun i gyflawni'r arbediad hwn yn 2018/19 pan fydd y gostyngiad yn y gyllideb yn cael ei weithredu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut y gall yr Awdurdod fod yn sicr bod modd cyflawni'r arbedion o £490k ar gostau cynorthwywyr dysgu yn 2018/19, yn enwedig pan fo nifer o ysgolion yn gorfod syrthio yn ôl ar gronfeydd wrth gefn sy'n prinhaus er mwyn ariannu diffygion yn y gyllideb a phan maent wedi gofyn (drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus) am wybodaeth ynghylch lefel yr arbedion a ragwelir dros y 3 blynedd nesaf fel bod modd iddynt gynllunio'n fwy cadarn. Sut hefyd y gall fod yn iawn i'r Cyngor gadw cronfeydd wrth gefn ond nid yr ysgolion.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod balansau'r ysgolion yn £2.4m ym mis Mawrth 2015 (£1.7m cynradd a £600k uwchradd). Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb gofynnir i ysgolion ddarparu gwybodaeth am lefel y cronfeydd wrth gefn y maent yn debygol o fod eisiau eu defnyddio i gydbwysu eu cyllidebau. Yn 2015/16, nododd ysgolion y byddent yn defnyddio tua £1m o'u balansau sy'n golygu y byddai ysgolion uwchradd yn defnyddio'u holl falansau. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015/16 'roedd disgwyl felly y byddai balansau'r ysgolion wedi gostwng i tua £1.3m ac na fyddai gan y sector uwchradd ddim ar ôl yn eu cronfeydd wrth gefn. Mewn gwirionedd, cynyddodd y balansau i £2.46m yn ystod 2015/16 gydag ysgolion uwchradd yn dal cyfanswm o £300k mewn cronfeydd wrth gefn tra bod gan ysgolion cynradd gyfanswm o £1.9m. 'Roedd y canlyniad terfynol felly'n wahanol iawn i'r hyn a amcangyfrifwyd gan ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, sy'n golygu bod balansau sylweddol yn parhau, yn enwedig yn y sector cynradd. Mae'r Cyngor wedi helpu ysgolion i leihau eu costau e.e. arbedion caffael – felly wrth i'w cyllidebau leihau mae eu costau'n lleihau hefyd. Mae costau cynorthwywyr dysgu'n faes y mae angen ei adolygu a gobeithir bod gohirio'r arbediad am flwyddyn trwy ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn rhoi digon o amser i ysgolion lunio cynllun i resymoli'r costau hyn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod lefelau gwahanol gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn briodol yng nghyd-destun y risgiau a wynebier a'i gynlluniau gwariant.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod gan y Cyngor £7.886m o arian wrth gefn ar hyn o bryd. Mater i'r Cyngor benderfynu arno yw lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a hynny'n seiliedig ar argymhelliad gan y Swyddog Adran 151. Fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refereni net yn lefel dderbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refereni 2016/17, byddai hynny'n golygu bod angen o gwmpas £6m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol ar gyfer Ynys Môn, sef y lefel isaf o gronfeydd wrth gefn y mae'r Swyddog Adran 151 yn cynghori y dylai'r Cyngor eu cadw. Barn broffesiynol y Swyddog yw y dylai'r Cyngor fabwysiadu ymagwedd ofalus tuag at ddefnyddio cronfeydd wrth gefn hyd nes y bydd y mater hawliadau Tâl Cyfartal a sut i dalu amdanynt wedi ei benderfynu a'i ddatrys.
- Nododd y Pwyllgor nad yw, fel arfer, yn derbyn, i ddibenion monitro a sgrwtini, unrhyw wybodaeth am gronfeydd wrth gefn y Cyngor ac eithrio fel digwyddiad unwaith yn unig ar adeg pennu'r gyllideb flynyddol . Gofynnodd y Pwyllgor am drefniant lle byddai'n cael gwybodaeth o bryd i'w gilydd am lefel y cronfeydd wrth gefn, a hynny fel rhan o'i gyfrifoldeb ehangach i edrych ar ba mor dda y rheolir cyllideb a chyllid y Cyngor.**
- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi penderfynu codi premiwm o 25% ar gartrefi a ddynodwyd yn gartrefi gweigion neu'n ail gartrefi i dalwyr y Dreth Gyngor. Wrth osod sylfaen y Dreth Gyngor, gwnaed asesiad ynghylch nifer yr ail gartrefi a'r cartrefi gwag i'w cynnwys wrth gyfrifo'r sylfaen ar gyfer y dreth. Nododd y Pwyllgor bod y sylfaen dreth wedi ei gosod ar 70% o'r eiddo a nodwyd a bod risg bod yr amcangyfrif o nifer yr eiddo a**

fyddai'n denu'r premiwm yn rhy uchel, sy'n golygu y bydd yr incwm a gynhyrchir yn is na'r gyllideb. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y Gwasanaeth Cyllid wedi gorfod gweithio ar sail y wybodaeth oedd ar gael yn haf 2016; fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn weddol hyderus bod y gronfa ddata yn gywir ac yn gyflawn. Gall pethau newid yn ystod y flwyddyn a gan mai prif bwrpas y premiwm yw dod â thair gwag yn ôl i ddefnydd, disgwylir y bydd nifer yr eiddo y codir premiwn arnynt yn gostwng. Mae'r trothwy 70% yn amcangyfrif ceidwadol. Nododd y Pwyllgor hefyd ei bod yn anodd iddo wneud cyfraniad ystyrlon i'r drafodaeth am y premiwm Treth Gyngor heb ragor o wybodaeth am y mater, h.y. yr adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror.

- **Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar effaith gostwng costau glanhau ysgolion ar yr ysgolion eu hunain ac am sicrwydd y gellir gostwng y gyllideb ar gyfer gwaith glanhau heb gael effaith negyddol ar lendid cyffredinol yr ysgolion.** Dywedodd y Pennaeth Dysgu y byddir yn parhau i gwrdd â'r gofynion o ran glendid a diogelwch ac nad yw lleihau'r gyllideb yn golygu na fydd ysgolion yn cael eu glanhau. Er na fydd pob ystafell ddosbarth yn cael ei glanhau bob dydd pan fydd y gyllideb wedi gostwng, ystyrir nad yw hynny'n angenrheidiol beth bynnag a bydd manau penodol e.e. toiledau ac ardaloedd a ddefnyddir yn aml, yn ogystal ag ardaloedd dosbarthiadau sylfaen mewn ysgolion cynradd yn parhau i gael eu glanhau bob dydd. Mae'r gyllideb hefyd yn golygu bod swm o arian ar gael ar gyfer glanhau yn y fan a'r lle.
- **Nododd y Pwyllgor fod y Gwasanaeth Addysg wedi elwa o'r broses ymgynghori gyhoeddus yn yr ystyr bod cynigion diwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb wedi ysgafnu rhai o'r cynigion anoddaf ar gyfer arbedion yn y gwasanaeth addysg.** Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod y Gwasanaeth Addysg wedi bod yn gwneud toriadau am nifer o flynyddoedd; tra bod y Cyngor hyd yn hyn wedi bod yn amddiffyn gwasanaethau addysg, cyrhaeddwyd pwynt bellach lle mae'n rhaid ystyried toriadau a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ysgolion. Beth mae'r gwasanaeth wedi ymdrechu i'w wneud yw ceisio gwarchod y ddarpariaeth addysg trwy ganolbwyntio ar ostwng costau ymylol. Nid yw'r dull hwn o weithredu'n gynaliadwy yn y tymor hir wrth i gyllidebau'r Cyngor barhau i grebachu; mae Penaeithiaid Ysgol yn awr yn gofyn am y rhyddid i allu gweithredu'r toriadau yn ôl yr amgylchiadau o fewn eu hysgolion eu hunain. Er bod cynyddu ffioedd a thaliadau yn cael effaith ar deuluoedd, mae'r Awdurdod ym Môn yn parhau i fod yn gystadleuol o ran y taliadau y mae'n eu codi e.e. pris cinio ysgol. Mae hyn hefyd yn wir am bris cludiant i'r ysgol; mae pob sedd ar fysus ysgol yn costio £465 yr un mewn gwirionedd ac mae nifer o seddi'n wag. Mae gofyn am gyfraniad yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gwrdd â chost y ddarpariaeth. Mae'r Gwasanaeth Addysg hefyd wedi gorwario mewn rhai meysydd, gan gynnwys ar gludiant ysgol ac mewn meysydd a arweinir gan y galw a meysydd sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Plant, a hynny oherwydd y galw cynyddol am leoliadau all-sirol i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal, sef anghenion a alla fod yn rhai cymhleth weithiau.
- **O ran ei bolisi codi tâl am gludiant ysgol, awgrymodd y Pwyllgor bod yr Awdurdod mewn gwirionedd wedi rhoi ei hun mewn congl ac nad oes ganddo lawer o le i symud oherwydd ei fod yn dechrau o waelodlin isel o gymharu ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru ac yn ceisio dal i fyny . Ni all ond gynyddu taliadau gan ganran benodol.** Serch hynny, dywedodd y Pennaeth Dysgu y gellir edrych ar yr hyn a ddarperir e.e. mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnig seddau gwag i ddisgyblion sy'n byw llai na 3 milltir o'r ysgol yn y sector uwchradd a 2 milltir yn y sector cynradd; gellid ail-drafod contractau fel nad yw bysus ond yn cynnig seddau i ddisgyblion sy'n byw mwy na 2 neu 3 milltir i ffwrdd.
- **Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a ddylid dynodi'r galw cynyddol yn risg benodol mewn perthynas â chyllidebau gwasanaeth yn yr un ffordd â'r risgiau cydnabyddedig a nodir yn adran 8.3 yr adroddiad.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod gwariant refeniw cyffredinol yn parhau i fod o fewn y gyllideb er bod gorwario ar rai gwasanaethau oherwydd cynnydd yn y galw. Felly, er gwaethaf y risg yn sgil gorwariant mewn rhai gwasanaethau oherwydd y galw amdanynt, mae'r broses ehangach o reoli'r gyllideb a'r cronfeydd wrth gefn yn gweithio i liniaru'r risg.

- **Holodd y Pwyllgor a ddylai'r Cyngor fod yn ceisio manteisio ar y rhagolygon mwy cadarnhaol ar gyfer 2017/18 yn seiliedig ar y setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, i lynu wrth gynnydd yn y Dreth Gyngor o 3% neu hyd yn oed mwy (yn unol â thablau 9 a 10 yn yr adroddiad) er mwyn darparu clustog ar gyfer 2018/19 ac i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran y toriadau a bydd yn rhaid eu gwneud a'r cynlluniau gwariant y bydd yn dymuno eu gweithredu efallai bryd hynny.** Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid mai'r neges o'r ymgynghoriad cyhoeddus yw bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno ag unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor. Mae'r senario orau yn Nhabl 10 yr adroddiad yn nodi y byddai angen arbedion o £1.9m; mae'r Awdurdod eisoes wedi dod o hyd i arbedion o £2.5m ar gyfer 2017/18 ac wedi medru cyflwyno cynnydd rhesymol yn y Dreth Gyngor ar yr un pryd. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i alluogi'r Pwyllgor Gwaith i gynnig llai o gynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18.
- **Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar a fydd y cynigion ar gyfer cyllideb 2017/18 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Drawsnewid.** Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y bydd y Cynllun Corfforaethol cyfredol yn dod i ben eleni ac er na fydd y cynigion ar gyfer y gyllideb yn effeithio ar gynnwys y Cynllun yn ei ffurf bresennol, mae yna elfen o risg o ran llunio Cynllun newydd dros y chwe mis nesaf.

6.2 Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y Gyllideb Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 (Atodiad 2)

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn diweddarur'r gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd, 2016. 'Roedd 2 gynllun benthyca digymorth posib wedi eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft mewn perthynas ag adeiladu cae pêl-droed 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a phrynu offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caerdybi. Gan fod y ddau gynllun yn parhau i gael eu datblygu ac nad ydynt mewn sefyllfa i symud ymlaen yn 2017/18 fe'u tynnwyd o'r rhaglen gyfalaf derfynol. Y prif wrthwynebiadau i'r cynlluniau gwario cyfalaf a fynegwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus oedd y dyraniad o £1m ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr. Gan fod hwn yn ofyniad deddfwriaethol, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddisgresiwn yn y mater er bod ymatebwyr yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn awgrymu mai Llywodraeth Cymru ddylai ddarparu cyllid ar gyfer y prosiect hwn os mai hi sy'n arwain arno.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar, a gwnaeth sylwadau ar fforddiadwyedd y rhaglen gyfalaf o gofio'r pwysau ar y gyllideb referniw.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y cynllun cyfalaf a'r strategaeth gyfalaf gyfredol (ac eithrio'r Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif) wedi eu sefydlu i ddefnyddio cyfuniad o fenthyca â chymorth, derbyniadau cyfalaf a grantiau gan Lywodraeth Cymru. Nod y dull hwn o weithredu yw osgoi benthyca ychwanegol a fyddai'n rhoi baich ychwanegol ar gostau cyfalaf sy'n bwydo drwodd i'r gyllideb referniw ac sy'n cael eu cyllido ganddi. Unwaith y bydd ymrwymiad i fenthyca wedi ei wneud mae'r costau wedyn yn disgyn ar y Cyngor dros nifer o flynyddoedd a gallant fod yn sylweddol.

6.3 Adroddiad y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad yn crynhoi'r negeseuon allweddol o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2017/18 yr Awdurdod ac a gynhaliwyd drwy amrywiaeth o ffyrdd a nifer o sianelau yn ystod y cyfnod 7 Tachwedd i 16 Rhagfyr 2016 (Atodiad 3)

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad ar y sianelau a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o bum wythnos a chanlyniad y broses honno. Derbyniwyd mwy na 700 o ymatebion (1% o'r boblogaeth) ac fe ymgysylltodd yr ymatebwyr trwy bob dull o gyfathrebu. Y ffordd fwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein (67%) gyda chyfryngau cymdeithasol hefyd yn gynyddol boblogaidd. Trwy bob sianel, 'roedd prif ffocws yr ymatebion yn canolbwyntio ar y cynnydd mewn cost prydau ysgol; cynyddu cost cludiant bws i blant sy'n byw o fewn 2 i 3 milltir i'w hysgol; datblygu safle parhaol i sipsiwn a theithwyr; y cynnydd arfaethedig o 3% yn y Dreth Gyngor; lleihau cyllidebau glanhau ysgolion a lleihau costau drwy ailstrwythuro a rhewi swyddi gwag.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Cydnabu'r Pwyllgor yr amrywiaeth o sianelau a ddefnyddiwyd i geisio ymgysylltu â'r cyhoedd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac i gael ymateb gwell. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor fod y gyfradd ymateb, sef 1% o'r boblogaeth, yn parhau i fod yn isel ac y gellir gwneud mwy o hyd i godi'r niferoedd sy'n ymateb.
- Nododd y Pwyllgor mai un ffordd o godi awydd y cyhoedd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yw sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn eglur. Nododd y Pwyllgor ei fod wedi dwyn sylw at y mater hwn fel rhan o'i waith sgrwtini ar y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn ôl ym mis Hydref, 2016. Er bod y canlyniadau'n well na'r llynedd ac er y gellir eu priodoli'n rhannol efallai i'r ieithwedd symlach, mae'n ymddangos bod rhai o'r ymatebion yn dal i awgrymu nad yw ymatebwyr yn deall yn llawn yr hyn a gynigir. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, er bod y broses wedi gwella, mae'n ymwneud â materion ariannol technegol sy'n gallu bod yn anodd i'w hesbonio weithiau.
- Gofynnodd y Pwyllgor am i'r holiadur ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgrwtini yn gynharach yn y broses o osod y gyllideb, a hynny er mwyn helpu i fframio'r cwestiynau mewn ffordd a all fod yn haws i'w deall a thrwy hynny annog adborth gwell.
- Nododd y Pwyllgor sylwedd yr ymatebion a dderbyniwyd a bod rhai o'r cynigion arbedion wedi eu haddasu yn sgil y negeseuon hynny.

6.4 Adroddiad y Swyddog Datblygu Llais Ni yn crynhoi prif safbwyntiau, pryderon ac argymhellion aelodau Cyngor Ieuenctid Ynys Môn mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2017/18 fel y gwyntyllwyd nhw mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2016 ac a fynychwyd gan y Rheolwr Sgrwtini Dros Dro , y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, Arweinydd y Cyngor a'r Hyrwyddwr Pobl Ifanc (Atodiad 4)

Adroddodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws, yr Hyrwyddwr Pobl Ifanc ar ganlyniad y gweithdy o ran y materion hynny a oedd wedi denu diddordeb y bobl ifanc a gymerodd ran yn y digwyddiad. Un sylw a wnaed oedd y dylid blaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer y bobl sydd eu hangen a phwysleisiodd un arall bwysigrwydd addysg fel cyfrwng a oedd yn siapio dyfodol plant.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a nododd y canlynol -

- Nododd y Pwyllgor ansawdd ac aeddfedrwydd yr ymatebion a wnaed. Awgrymodd y Pwyllgor fod ansawdd yr ymatebion yn ystyriaeth sydd yr un mor bwysig â'u nifer wrth werthuso llwyddiant neu fethiant ymgynghoriad cyhoeddus a'i fod yn ffactor y dylid ei gadw mewn cof ar gyfer y dyfodol.
- Nododd y Pwyllgor fod yr ymatebwyr, os oeddent yn anghytuno â chynnig, wedi cyflwyno opsiwn arall gan sicrhau sgrwtini adeiladol o'r hyn sy'n cael ei gynnig, ac roedd y Pwyllgor yn eu canmol am hynny.

Ar ôl trafod ac ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ar ffurf ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, a chan gadw mewn cof y sylwadau a gyflwynwyd gan y cyhoedd ar Ynys Môn a'r Cyngor Ieuenctid, ynghyd ag ymateb y Pwyllgor Gwaith iddynt trwy iddo addasu'r cynigion ar gyfer y gyllideb, PENDERFYNODD y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol -

- Cefnogi ac argymhell y cynigion ar gyfer y Gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017 fel y nodir hwy yn adran 10 yr adroddiad ysgrifenedig yn Atodiad 1
- Dwyn sylw ysgolion at yr angen iddynt wneud ymrwymiad i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd o £490k mewn perthynas â chostau cynorthwywyr dysgu neu arbedion eraill yn y cyllidebau dirprwyedig yn 2018/19 ac i gynllunio ar y sail honno.
- Bod y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn derbyn adroddiadau cyfnodol ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor fel rhan o'i gyfrifoldeb i sgrwtineiddio pa mor dda mae cyllideb a chyllid y Cyngor yn cael eu rheoli.
- Cyflwyno'r ddogfen / holiadur Ymgynghoriad Cyhoeddus i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn gynharach yn y broses o osod y gyllideb yn y dyfodol fel y gall y

Pwyllgor helpu i siapia ffurf ac ieithwedd yr ymgynghoriad i annog mwy o bobl i gymryd rhan ynddo.

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones
Cadeirydd**

DRAFFET

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2017 (P.M.)

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws,
Peter Rogers

Aelodau'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio

Y Cyngorwyr Alun Mummery, Dylan Rees

Aelodau Portffolio

Y Cyngorydd Ieuan Williams (Arweinydd)
Y Cyngorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg)

WRTH LAW: Prif Weithredwr
Pennaeth Dysgu
Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell (RR)
Cydllynydd Dysgu Gydol Oes (BHJ)
Rheolwr Sgrwtini Dros Dro (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, R. Llewelyn Jones, H. Eifion Jones
(Aelod Portffolio Cyllid) Dafydd Rhys Thomas (Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth
ac Adfywio)

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Y Cyngorydd John Griffith

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 STRATEGAETH DDRAFFT Y GWASANAETH LLYFRGELL 2017/22

Cyflwynwyd, er ystyriaeth y Pwyllgor, Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017 i 2022. Pwrpas y Strategaeth yw ceisio sicrhau bod Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn cael ei osod ar sylfeini cynaliadwy a chadarn fydd yn caniatáu i'r gwasanaeth wasanaethu anghenion preswylwyr yr ynys a chyflawni gofynion statudol yn y blynyddoedd i ddod.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth llyfrgell statudol sy'n gynhwysfawr ac effeithlon yn ôl gofynion Adran 7 Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn cael eu gosod a'u hasesu gan Lywodraeth Cymru ac yn un o'r mesurau o ran p'un a yw Awdurdod Llyfrgelloedd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol. Yng nghyd-destun y Safonau, y prif bryder ynglŷn â'r Gwasanaeth yn Ynys Môn yw bod lefelau staffio islaw'r safonau a osodir a bod hynny o bosib yn cael effaith ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mae Cynllun Corfforaethol Ynys Môn ar gyfer 2013-17 yn datgan y nod o leihau cyfanswm cost y Gwasanaethau Hamdden, Diwylliant a Llyfrgelloedd i'r Cyngor gan 60% yn ystod cyfnod y cynllun. O ganlyniad i'r ymrwymiad hwn, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llyfrgelloedd, y Gwasanaeth Ieuenctid, Amgueddfeydd a Diwylliant er mwyn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau y manylir arnynt yn y Cynllun Corfforaethol i archwilio opsiynau ac i weithredu model ddarparu Llyfrgelloedd diwygiedig.

Yn ystod yr hydref 2015 cynhaliodd Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn adolygiad a oedd yn edrych ar ystod o feysydd ac a arweiniodd at adnabod nifer o opsiynau ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod Hydref 2015 i gasglu barnau am yr opsiynau a nodwyd ac i wahodd syniadau eraill; rhoddir manylion am yr ymgynghoriad ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Er nad oes unrhyw opsiwn clir a ffeirir wedi ymddangos o'r atebion hyn, roedd tystiolaeth y byddai'n fanteisiol i geisio cyfleoedd ar gyfer modelau cefnogaeth gymunedol, yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen i weithio gyda'r Cyngor i gynnal y gwasanaeth yn hytrach nag unrhyw berygl o ddileu'r gwasanaeth.

Mae Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell yn cyflwyno model a ffeirir o ran ymgynghori a gafodd ei datblygu er mwyn ymateb i'r heriau a'r anghenion a amlinellwyd yn yr adroddiad. Nodwyd barn preswylwyr, sydd wedi eu crynhoi ym mharagraff 4.3 yr adroddiad, a'u hymgorffori yn y strategaeth ddrafft. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell ac yn amlinellu fframwaith ddarparu sydd â'r nod o gwrdd ag anghenion y Safonau Llyfrgell ac anghenion cwsmeriaid y gwasanaeth. Wrth wraidd y weledigaeth, mae chwe nod craidd sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 5.2 yr adroddiad. Mae'r strategaeth ddrafft yn argymhell symud i batrwm o ddarpariaeth yn seiliedig ar Lyfrgelloedd Ardal; Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad yr Awdurdod, Gwasanaethau Symudol a phwyntiau Mynediad posibl yn y Gymuned (yn ddibynol ar ddsbarthiad y ddwy haen gyntaf). Cynhwysir gwybodaeth bellach ar sut y byddai'r ddarpariaeth dair haen arfaethedig yn gweithio'n ymarferol ym mharagraff 5.4 yr adroddiad. Fodd bynnag, er bod papurau amrywiol wedi eu paratoi a'u trafod mewn perthynas â ddarparu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn Ynys Môn, nid oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi ei wneud ynglŷn â'i ddyfodol.

Cynhaliwyd Asesiad Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA) ar gyfer Llyfrgelloedd sydd yn asesu'r angen am y gwasanaeth ac effaith unrhyw newidiadau arfaethedig ar y boblogaeth a all fod yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth. Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell ystyriwyd y materion a restrir ym mharagraff 6.2 yr adroddiad yn ogystal dangosyddion eraill fel rhan o'r AECA. Mae'r AECA ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell yn parhau i fod yn ddogfen fyw a bydd canfyddiadau'r broses ymgynghori ar y Strategaeth ddrafft yn cael eu bwydo i mewn fel y bo'n briodol.

O ran ystyriaethau ariannol, oherwydd y newidynnau posibl yn nhermau'r model ddarpariaeth terfynol o fewn y Strategaeth, mae'r arbedion a ddangosir yn Adran 7 yn cynrychioli'r ddau begwn o fewn y strategaeth h.y. y sefyllfa gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned lle mae pob Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad yr Awdurdod yn llwyddiannus, a'r sefyllfa lle ceir y lefel isaf o gefnogaeth gan y gymuned lle na fu modd cael cefnogaeth y gymuned sydd yn arwain i lyfrgelloedd Haen 3 yn cau (5 llyfrgell). Dengys y tabl ym mharagraff 7.3 yr arbedion posib os cedwir y lefelau staffio o fewn y gwasanaeth, ond gyda strwythur staffio gwahanol sydd felly'n lliniaru'r effaith ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Dengys y tabl ym mharagraff 7.4 yr arbedion posibl os na fydd lefelau staffio yn cael eu cadw o fewn y gwasanaeth. Mae Atodiad 4 yr adroddiad yn amlinellu'r costau hyn yn fanylach.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft ac i hwyluso trafodaethau â phartion a chanddynt ddiddordeb. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus bydd yr Aelod Portffolio yn cyflwyno Strategaeth Derfynol y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer penderfyniad terfynol yn Hydref 2017.

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar gan y Swyddogion a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn sgil ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned a lefel y diddordeb a fynegwyd hyd yma gan y cynghorau cymuned ynglŷn â chydweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth Llyfrgell yn y cymunedau. Dywedodd y Cydgysylltydd Dysgu Gydol Oes fod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned wedi derbyn

gwahoddiad i gwrdd â'r Gwasanaeth, un ai yn unigol neu mewn cyfarfodydd cyhoeddus, a nododd bod nifer wedi derbyn y gwahoddiad. Mae trafodaethau yn parhau gyda nifer o gynghorau, gyda rhai wedi mynegi diddordeb ac eraill yn cymryd camau i sefydlu trefniadau mwy ffurfiol. Mae sefyllfa pob cyngor tref a chymuned yn wahanol ac mae'r datblygiadau o ran y trafodaethau'n adlewyrchu'r sefyllfa honno. Yn ogystal, pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i ymgysylltu â'r holl gynghorau cymuned ac awgrymwyd bod angen ailgysylltu â'r cynghorau sydd heb ymateb hyd yma.

- Mewn perthynas â'r tabl ar dudalen 8 yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb sy'n dangos data'n ymwneud â'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd sefydlog ar yr Ynys, nododd y Pwyllgor y gellid egluro'r wybodaeth a ddarperir er mwyn adlewyrchu beth yn union a gynhwysir, ac na chynhwysir, yn y gost fesul ymweliad. Byddai hyn yn rhoi darlun llawn mewn modd sy'n hawdd i'w ddeall.
- Nododd y Pwyllgor bod yr ymgynghoriad a'r camau ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, yn ogystal â'r Asesiad Effaith ac Anghenion, wedi bod yn drylwyr, yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol ac yn adlewyrchu ymateb meddylgar ac ymatebol i farn y cyhoedd a fynegwyd drwy gyfrwng y prosesau hynny, ac roedd y Pwyllgor yn eu cymeradwyo.
- Nododd y Pwyllgor bod nifer o aelodau Sgriwtini wedi bod yn rhan o'r broses o adolygu darpariaeth y Gwasanaeth Llyfrgell a datblygu'r cynigion drwy'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llyfrgelloedd, y Gwasanaeth Ieuenctid, Amgueddfeydd a Diwylliant. O ganlyniad, mae sgriwtini wedi bod yn broses barhaus.
- Yn dilyn cwestiwn gan y Pwyllgor, cadarnhawyd y bydd y Strategaeth Derfynol ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell 2017/22 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

PENDERFYNWYD –

- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn fodlon bod y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi ymgymryd â'r broses o ddatblygu Strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell mewn modd sydd mor gynhwysfawr a chynhwysol â phosib.**
- **Yn ddibynnol ar eglurhad ar yr wybodaeth a ddarperir yn y tabl ar dudalen 8 yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA), bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr AECA yn cynnwys pob grŵp ac nad oes ganddo unrhyw bryderon eraill ar y mater hwn.**
- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn argymhell i'r Pwyllgor Gwaith i frw ymlaen â'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell ac adrodd ar ei ganfyddiadau erbyn mis Tachwedd 2017.**

DIM CAMAU PELLACH YN CODI

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL A'R PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	13 & 20 MAWRTH 2017
PWNC:	ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2016/17)
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS
PENNAETH GWASANAETH:	SCOTT ROWLEY
AWDUR YR ADRODDIAD: RHIF FFÔN: E-BOST:	GETHIN MORGAN 01248 752111 GethinMorgan@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	d/b

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau	
1.1	Hwn yw trydydd cerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.
1.2	Mae'n dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar gyfer Chwarter 3.
1.3	Gofynnir i'r Pwyllgor sgrwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> 1.3.1 <i>Cydnabyddir meysydd sy'n tanberfformio (dangosyddion coch neu ambr ar y cerdyn sgorio) a sefydlir mesurau priodol ar gyfer eu gwella fydd yn cael eu cyflwyno i'r deilyddion portffolio yn fisol ac i'r byrddau rheoli cysylltiedig.</i> 1.3.2 <i>Parhau gyda'r panelau herio salwch a gynhelir yn rheolaidd sydd wedi bod yn allweddol o ran gwella ein ffigurau rheoli salwch hyd at Ch3.</i> 1.3.3 <i>Adroddir i'r Pwyllgorau Gwaith a Sgrwtini Corfforaethol ar y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch materion salwch unwaith y bydd ar gael. Yna dylid mabwysiadu arferion gorau a gwneud gwelliannau pellach yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethol.</i> 1.3.4 <i>Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant sydd wedi ei ddrafftio a'i alinio ag adroddiad AGGCC yn cael ei oruchwylio gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Panel Plant.</i> 1.3.5 <i>Darperir cymorth pellach i werthuso'r prosesau ar gyfer casglu'r</i>

wybodaeth ar gyfer y dangosyddion yn y maes Dysgu yn ystod Ch4 ac yn y flwyddyn ariannol newydd

1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

d/b

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Ystyriwyd y mater gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror ac mae eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Dim sylwadau
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylwadau.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Sylwadau wedi'i cynnwys yn yr adroddiad
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu	

	(TGCh)	
7	Sgrwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:
Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2016/17 a'r Cerdyn Sgorio.

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad monitro Cerdyn Sgorio 2016/17 - Chwarter 2 (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2016 a'i dderbyn ganddo).

ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2016/17)

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Un o amcanion y Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau bod gennym ddull o dystiolaethu a chyflwyno gwelliant parhaus ar draws y sefydliad. I'r perwyl hwn, llunnir adroddiad ar berfformiad bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref sy'n dangos y cynnydd a wnaed neu'r diffyg cynnydd (fel sy'n berthnasol).
- 1.2 Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn dangosyddion sy'n dangos yn eglur bod gwaith dydd i ddydd y Cyngor yn cael ei wneud yn llwyddiannus ac i gynorthwyo i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.
- 1.3 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch3 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd.

2. RHEOLI PERFFORMIAD

- 2.1.1 Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn dangosyddion y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.
- 2.1.2 Ar ddiwedd Ch3, mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod 5 o ddangosyddion yn tanberfformio ac yn Ambr neu'n Goch yn erbyn eu targed am y flwyddyn.
- 2.1.3 Mae tri dangosydd o fewn y Gwasanaethau Oedolion nad ydynt yn perfformio crystal â'r targedau –

- (i) LI/018b – AMBR - % o ofalwyr ar gyfer Oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac sydd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn. Ch3 – 87.5% Targed – 93%. Mae'r perfformiad yn well nag yr oedd yn Chwarter 3 yn 2015/16, sef 86.3%, ond mae dipyn yn fyr o'r targed.

Yn yr adroddiad ar Ch2 y camau lliniaru a nodwyd gan y gwasaneth oedd gwella'r DP hwn trwy ddefnyddio Gweithwyr Cymdeithasol i wneud asesiadau ac adolygu asesiadau yn ôl y gofyn. Mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i wella perfformiad yn erbyn y DP hwn yn ystod Ch3 ac felly mae'n hyderus y bydd modd cwrdd â'r targed ac mae wedi nodi bod angen adolygu 30 o gleientiaid cyn diwedd Ch4.

Camau lliniaru – er mwyn gwella'r safonau hyn yn Ch4 bydd Gweithwyr Cymdeithasol yn gorffen yr asesiadau a oedd i fod i gael eu cwblhau ac yn cwblhau asesiadau ac adolygiadau newydd yn y tri mis nesaf, sef ar gyfer o leiaf 30 o gleientiaid, er mwyn cyrraedd y targed ar gyfer y flwyddyn.

- (ii) PM18 – AMBR - Canran yr ymholiadau diogelu oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol. Ch3 – 81.25%, Targed – 90%. Mae'r DP hwn yn newydd ar

gyfer 2016/17 ac o'r herwydd, gellir ystyried y targed fel un uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae'r perfformiad cyfredol cryn dipyn islaw'r hyn yr hoffai'r adran ei gyflawni.

Yn yr adroddiad ar Ch2 nododd y Gwasanaeth fod amseriadau ymchwiliadau gan asiantaethau partner yn cael effaith ar amserlenni a pherfformiad y dangosydd hwn. Mae'r materion hyn eto wedi'u codi mewn cyfarfodydd grŵp strategol a gwelwyd gwelliant bychan yn Ch3 o ganlyniad.

Camau Iliniaru – Mae'r mater yn parhau i gael ei godi yn y cyfarfodydd o'r grŵp strategol a gynhelir rhwng Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn ceisio ei ddatrys. Mae'n annhebygol y bydd modd cwrdd â'r targed ar gyfer y flwyddyn ond gwneir pob ymderch i fod cyn agosed â phosib i'r targed erbyn diwedd Ch 4.

- (iii) PM19 – AMBR - Oedi gyda throsglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Ch3 – 5.8 Targed 1.5. Fel y DP uchod, mae hwn yn ddangosydd newydd ac mae'r targed yn un uchelgeisiol. Mae diffyg capasiti yn y maes gofal cartref yn cael effaith negyddol ar y DP hwn.

Camau Iliniaru – Mae'r camau Iliniaru a nodwyd yn yr adroddiad Ch2 yn parhau i fod yn berthnasol. Mae cynllun trawsnewid yn mynd rhagddo i sicrhau capasiti gofal cartref mwy cynhwysfawr yn ystod 2017. Yn ychwanegol mae diffyg gwelyau gofal nyrsio EMI yn arwain at rywffaint o oedi. Er mwyn ymdrin â'r mater hwn mae'r gwasanaeth yn datblygu capasiti arbenigol ychwanegol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Ni fydd modd cyrraedd y targed o 1.5 erbyn diwedd Ch4.

2.1.4 Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Plant yn parhau i danberfformio fel a ganlyn –

- (i) SCC/025 - y % o ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau yn Ch3 – 80% Targed – 100% **COCH**. Mae hyn yn cymharu gyda pherfformiad o 86.54% yn yr un cyfnod yn 2015/16. Trafodwyd y dangosydd hwn hefyd yn yr adroddiad ar gerdyn sgorio Ch2 a chredir bod bod perfformiad yn y dangosydd hwn wedi dirywio eto yn Chwarter 3 oherwydd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 20% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn.

Camau Iliniaru – er mwyn gwella'r safonau hyn ar gyfer Ch4, gweithredir ar yr isod :

- Mwy o weithwyr cymdeithasol a defnyddio system dracio bob wythnos, ynghyd â system reoli newydd a ddyluniwyd i sicrhau bod ymweliadau'n cael eu gwneud pan fo staff ar eu gwyliau neu i ffwrdd o'u gwaith oherwydd salwch.
- Ni fydd y gwasanaeth yn cwrdd â'r targed ar gyfer y flwyddyn ond mae'r cynllun gwella gwasanaeth yn mynd i'r afael ar faterion sydd wedi arwain at y dirywriad mewn perfformiad sydd wedi digwydd ers i'r nifer o blant sy'n derbyn gofal cynyddu.

- (ii) Arolygwyd y gwasanaeth gan AGGCC yn Ch3 a thrafodir argymhellion yr arolygiad a'r cynllun gwella ar gyfer cyflawni'r argymhellion hynny mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 13 Mawrth ac yn y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mawrth.

2.1.5 Un dangosydd newydd sydd bellach yn AMBR ar y Cerdyn Sgorio yw un o ddangosyddion y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd -

(I) LCS / 002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol Ch3 - 312k, Targed - 334k. Mae hyn 12k yn llai nag yn Ch3 15/16 (324k).

Un o'r prif resymau dros beidio cyrraedd y targed ar gyfer Ch3 oedd cau Canolfan Hamdden Caergybi am 3 mis dros yr haf, a arweiniodd at golli 12.5k o ymweliadau fe dybir. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r ffigwr hwn yn cael ei gynnwys byddai'r gwasanaeth yn dal i fod 10k yn fyr o'r targed ar gyfer y flwyddyn. Mae pryderon bod pobl yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden heb sweipio i mewn, sydd wedi arwain at ostyngiad yn y ffigyrau o ran faint o bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau. Mae rhai o'r cwsmeriaid hyn yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol ac nid ydynt eisiau disgwyl i sweipio i mewn wrth y ddesg flaen. Yr ateb delfrydol fyddai gosod system rwystr a fyddai'n golygu bod raid i ddefnyddwyr sweipio i mewn, gan arwain at gynnydd yn y ffigyrau o ran y niferoedd sy'n defnyddio'r ganolfan.

Lliniaru – Fel cam lliniaru tymor byr sy'n cael eu fabwysiadu yw darparu cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol gyda taflen iddynt arwyddo fel gallant basio'r ciw ac yn dal i gael eu cynnwys mewn niferoedd cyfranogiag. Yr ateb yw gosod rhwystrau yn y derbynfeydd i roeli mynediad, cyfri rhifau cyfranogiad yn gywir, gwella iechyd a diogelwch, a chryfhau arferion diogelu

2.1.6 Mae gweddill y dangosyddion yr adroddwyd arnynt ar gyfer Ch3 yn **WYRDD** neu'n **FELYN** yn y rhan sy'n ymwneud â rheoli perfformiad.

2.1.7 Mae Atodiad 2 yn dangos y rhaglen gyfan o waith y mae'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn eu goruchwyllo. Er bod statws rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn GOCH, mae'n bwysig nodi bod y materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u monitro drwy gyfrwng y Byrddau sy'n cyfarfod bob dau fis.


2.2 RHEOLI POBL

2.2.1 O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad y Cyngor o safbwynt cyfraddau salwch (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio dan 'rheoli pobl'*) yn dangos gwelliant sylweddol ar ddiwedd Ch3 (7.21 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC) o gymharu â'r llynedd (8.43 Diwrnod o Salwch fesul pob aelod o staff ALIC), cyfartaledd o 3110 diwrnodau yn well na yn 2015/16.

2.2.2 Mae hyn yn awgrymu y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel yn y ddwy flynedd diwethaf, h.y. cyfraddau salwch

uwch yn Ch3 a Ch4 nag yn Ch1 a Ch2) yn cyfateb i 10.5 o ddyddiau o salwch ar gyfer pob gweithiwr llawn amser (Tabl 1). Fodd bynnag, os bydd y perfformiad cryf Ch3 yn parhau yn Ch 4 mae'n debygol y llwyddir i gwrdd â'r targed o 10 diwrnod.


Absenoldeb salwch – dyddiau gwaith/shifftiau a gollwyd ar gyfartaledd



Tabl 1


2.2.3 Mae perfformiad y Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch3 yn nodi mai dim ond 2 o Wasanaethau sy'n GOCH o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:

- Gwasanaethau Plant - COCH – 11.11 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed 7.58). Mae'r gwasanaeth wedi gwella eu salwch yn sylweddol yn ystod Ch3 (Tabl 2)




Tabl 2

- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo - COCH – 8.30 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (Targed o 7.13). Gwelodd y gwasanaeth dirywiad yn eu cyfraddau salwch yn ystod Ch3 (Tabl 3). Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf i lawr at y cynnydd mewn salwch tymor hir oedd yn cyfateb i 56% o'r salwch ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Chwarter 3.



Tabl 3


2.2.4 Un o'r prif resymau am beidio â chyrraedd ein targed corfforaethol ar gyfer 2015/16 oedd y cynnydd yn yr achosion Salwch Tymor Hir a oedd yn cyfateb i 58% o'r cyfanswm dyddiau a gollwyd oherwydd salwch blwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant yn Ch 3 2016/17 o gymharu â Ch 3 2015/16, pryd collwyd 2800 o ddyddiau oherwydd salwch o gymharu â 3800 (gweler tabl 4 isod). Gwelliant o 1000 diwrnodau.



Tabl 4

- 2.2.5** Roedd salwch tymor hir yn cyfateb i 54% o'n cyfraddau salwch ar gyfer Ch3 o gymharu â 59% am yr un cyfnod yn 2015/16. Mae hyn yn welliant ar le roedd y Cyngor y llynedd ac mae wedi bod yn allweddol i'r Cyngor cyrraedd y targed ar ddiwedd Ch3.
- 2.2.6** O ran salwch tymor byr, mae'r gymhariaeth gyda blynyddoedd cynt yn dangos bod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn. Yn wir, ar gyfer y 9 mis cyntaf y flwyddyn (cyfanswm cronus) collwyd 350 yn llai o ddyddiau oherwydd salwch tymor byr o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, mae'r ymgyrch i leihau cyfraddau salwch tymor byr yn parhau, a gellir gweld effaith hynny yn Ch3 sy'n welliant o 640 o ddiwrnodau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (Tabl 5).

SALWCH TYMOR BYR



Tabl 5

- 2.2.7** Mae 'rheoli' salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny'n cynnwys y cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith a'r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (*dangosyddion 7 i 9 ar y cerdyn sgorio*).
- 2.2.8** Mae'r Cyngor yn parhau i ymgorffori arfer gwaith yma ar draws ei wasanaethau ac yn perfformio'n dda yn erbyn ei tharged cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith (RTW) o fewn amserlen (h.y. 5 diwrnod gwaith) yn gweithredu ar gyfradd llwyddiant o 78%, tra bod cyfanswm o gyfweiliadau RTW yn gweithredu ar 90% gyfradd llwyddiant.
- 2.2.9** Argymhellodd yr UDA yn 2015/16, y dylid rhoi rhagor o sylw i reoli'r achosion hynny o absenoldebau salwch tymor byr ailadroddus sy'n cyrraedd pwyntiau sbardun a lle mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP). Mae'r rhain yn parhau i gael sylw yn y Panelau Herio Salwch.
- 2.2.10** Mae ffigurau CAP ar gyfer Ch3 wedi aros yr un peth a Ch2 ar 75% (nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ysgolion). Er nad oes unrhyw welliant wedi ei wneud yn y chwarter, mae Adnoddau Dynol wedi nodi bod ansawdd y CAP wedi gwella'n sylweddol.

2.2.11 Nid yw'r ffigyrau yr adroddwyd arnynt yn ystadegau salwch eleni'n cynnwys y diwrnodau o salwch a gymerwyd oherwydd profedigaeth (750 diwrnod). Petaem yn cynnwys profedigaethau yn y swm, byddem yn parhau i weld gwelliant bychan (7.54 diwrnod fesul pob aelod o staff ALIC). Gwnaed y newid hwn i'r modd y caiff y ffigyrau eu gweithio allan er mwyn cwrdd â'r canllawiau a ddarparwyd gan Uned Ddata Cymru ar gyfer y dangosydd perfformiad cenedlaethol.

2.4.12 Mae'r UDA yn argymhell felly:

- *Parhau gyda'r panelau a gynhelir yn rheolaidd i herio gwasanaethau mewn perthynas â chyfraddau salwch er mwyn cadw'r ffocws ar wella ein ffigyrau rheoli absenoldeb.*
- *Nid yw'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â rheoli absenoldebau wedi dod i alw hyd yma ond mae'r bwriad yn parhau i adroddir arno i'r Pwyllgorau Gwaiith a Sgriwtini Corfforaethol pan fydd ar gael.*

2.3 GWASANAETH CWSMER

2.3.1 Mae dau o'r dangosyddion newydd o ran newid sianelau yn edrych ar lansio ApMôn yn llwyddiannus. Mae pobl wedi defnyddio'r dechnoleg i roi gwybod am 248 o faterion sydd angen sylw hyd at ddiwedd Ch3. (ynghylch, er enghraifft, gadael gwastraff yn anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaethau neu gwynion, pafinau wedi torri, ffurflenni data-bas clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Yn anffodus, nid ydym ar hyn o bryd yn medru rhoi gwybod faint o weithiau y mae ApMôn wedi ei lawrlwytho.

2.3.2 Mae'r dangosyddion sy'n weddill yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus. Cafwyd 395k o ymweliadau unigol i'r wefan yn ystod hanner gyntaf y flwyddyn. Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cyhoeddus wedi arwain at 20k o gyfrifon cyfryngau cyhoeddus yn ein dilyn - Facebook (9k o ddilynwyr) a Twitter (11k o ddilynwyr).

2.3.3 O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 52 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd Ch3 ac un gŵyn Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i'r holl gwynion ac o'r rhain, cadarnhawyd 6 ohonynt yn llawn (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1]), Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [2] ac Adnoddau [3]. Cadarnhawyd 8 yn rhannol (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd [1], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [4] a Tai [3]) ac ni chadarnhawyd y 35 oedd yn weddill. Mae'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer yn cael gwybod am y rhain ac yn eu monitro.

2.3.4 Ymatebwyd i 77% o'r cwynion o fewn yr amserlen ond roedd 23 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Oedolion [5], Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [1], Tai [1], Gwastraff a Thai [1]. Busnes y Cyngor [1] a Gwasanaethau Plant [14]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 64% a gafwyd ar ddiwedd 2015/16 ond mae'n parhau i fod ychydig yn is na'r targed o 80%.

2.3.5 Ymatebwyd i 73% o'r ceisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth erbyn diwedd Ch3 o gymharu â 67% ar ddiwedd 2015/16. Mae hon yn welliant sylweddol flwyddyn ar flwyddyn wrth gofio bod y Cyngor wedi delio â mwy na 4000 o gwestiynau yn y 3 chwarter cyntaf 2016/17.

2.3.6 Cafwyd 704 o geisiadau DRhG ar ôl Ch3 gyda 189 o ymatebion hwyr. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion hwyr o'r Gwasanaeth Adnoddau, sef 37% o'r ymatebion hwyr (59% o'r 119 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, sy'n debyg i'r 60% o ymatebion hwyr yn Ch2). Mae hyn wedi cael ei adnabod gan y Pennaeth Gwasanaeth fel maes gwella a mae newidiadau i'r systemau yn y ffordd mae Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu prosesu mewn lle fydd yn arwain at welliant yn ystod y chwarter 4. Mae gwasanaethau eraill yn cynnwys y Gwasanaethau Dysgu gyda 16% (52% o'r 58 a dderbyniwyd gan y gwasanaeth), Gwasanaethau Cymdeithasol gyda 14% (19% o'r 139 a dderbyniwyd yn y gwasanaeth) a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd gyda 14% (33% o'r 108 a dderbyniwyd yn y gwasanaeth). Mae ein hymateb i'r ceisiadau hyn y bwysig ac mae'r UDA a'r Pennaethiad Gwasanaeth yn monitro perfformiad yn y maes hwn yn agos.

2.3.7 Mae'r ymarfer Siopwr Cudd (eitemau 16-19 ar y cerdyn sgorio) yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd wedi ei gwblhau erbyn Ch4. Unwaith eto, y Grŵp Ymgynghorol Tenantiaid sydd yn cynnal yr ymarferiad. Adroddir ar gasgliadau ac argymhellion eu hadroddiad yma yn Ch4.

2.4 RHEOLAETH ARIANNOL

2.4.1 Rhagwelir gorwariant o £16k (0.01%) ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017.

2.4.2 Rhagwelir £756k o orwariant ar gyllidebau'r gwasanaethau, er rhaid pwysleisio bod hyn yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Y gwasanaethau sy'n parhau i deimlo pwysau ar eu cyllidebau yw'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Plant. Mae hynny oherwydd costau lleoliadau arbenigol statudol ac mae gallu'r gwasanaethau i reoli'r costau hyn yn gyfyngedig. Disgwylir i'r gorwariant ar wasanaethau gael ei ariannu gan danwariant Cyllid Corfforaethol o £1.004m, sydd wedi digwydd yn bennaf oherwydd tanwariant ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac arbedion ar Ariannu Corfforaethol. Yn ogystal, amcangyfrifir y cesglir £264k yn llai o Dreth Gyngor na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd bod angen darparu ar gyfer dyledion drwg.

2.4.3 Dylid nodi mai rhagolygon yw'r rhain ac y bydd materion sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor, megis tywydd garw, yn cael effaith ar wariant, ond ni ellir eu cynnwys yn y rhagolwg hwn. Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Fodd bynnag, bydd sgrwtini rheolaidd gan yr UDA a chamau adferol gan y Pennaethiad Gwasanaeth yn helpu'r gwasanaethau i ymdopi o fewn y cyllidebau y gallant eu rheoli.

2.4.4 Gellir cael rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr Adroddiad ar Fonitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch3 sydd wedi'i adrodd i'r Pwyllgorau Gwaith a Sgrwtini Corfforaethol ym mis Chwefror.

3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor sgrwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

3.1.1 Cydnabyddir meysydd sy'n tanberfformio (dangosyddion coch neu ambr ar y cerdyn sgorio) a sefydlir mesurau priodol ar gyfer eu gwella, fydd yn cael eu cyflwyno i'r deilyddion portffolio yn fisol ac i'r byrddau rheoli cysylltiedig.

3.1.2 Parhau gyda'r panelau herio salwch a gynhelir yn rheolaidd sydd wedi bod yn allweddol o ran gwella ein ffigurau rheoli salwch hyd at Ch3.

3.1.3 Adroddir i'r Pwyllgorau Gwaith a Sgrwtini Corfforaethol ar y gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch materion salwch unwaith y bydd ar gael. Yna dylid mabwysiadu arferion gorau a gwneud gwelliannau pellach yn seiliedig ar arferion gorau cenedlaethol.

3.1.4 Mae'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant sydd wedi ei ddrafftio a'i alinio ag adroddiad AGGCC yn cael ei oruchwylio gan yr Panel Plant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

3.1.5 Darperir cymorth pellach i werthuso'r prosesau ar gyfer casglu'r wybodaeth ar gyfer y dangosyddion yn y maes Dysgu yn ystod Ch4 ac yn y flwyddyn ariannol newydd

3.1.6 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y camau lliniaru a amlinellir uchod.

Gofal Cwsmer / Customer Service	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 15/16 Result	Canlyniad 14/15 Result
01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	Melyn / Yellow	↑	52	49	59	65
02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbyniwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	1	-	5	
03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol	-	-	14	-	21	
04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod	Melyn / Yellow	↓	77%	80%	64%	
05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	-	↓	125	-	261	71
06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	43	-	53	
07) Nifer o ganmoliaethau	-	↑	465	-	712	521
08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen	Melyn / Yellow	↓	73%	80%	67%	65%
09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd	-	-	704	-	854	894
10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb	-	-	-	15%	12%	
11) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn	-	-	-	-	-	
12) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn	-	↑	248	-	-	
13) Nifer o daliadau dros y we	-	-	-	-	-	
14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol	-	↑	20k	-	-	
15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor	-	↓	395k	-	-	
16) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd)	-	-	-	-	-	
17) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd)	-	-	-	-	-	
18) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd)	-	-	-	-	-	
19) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd)	-	-	-	-	-	

People Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 15/16 Result	Canlyniad 14/15 Result
01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	-	-	2258	-	2310	2336
02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	-	-	1250	-	1303	1362
03) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shiftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Gwyrdd / Green	↑	7.21	7.2	11.68	11.53
04) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shiftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.33	-	4.89	5.49
05) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shiftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.88	-	6.79	6.04
06) % o salwch sy'n gysylltiedig â straen	Gwyrdd / Green	↓	7%	9%	7%	5%
07) % o Cyfweiliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen	Melyn / Yellow	↓	78%	80%	84%	85%
08) % o Cyfweiliadau DIG a gynhalwyd	Melyn / Yellow	↓	90%	95%	-	-
09) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd	Melyn / Yellow	-	74%	80%	-	-
10) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol)	-	-	-	-	-	-
11) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen	Gwyrdd / Green	-	85.50%	80%	-	-
12) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl)	-	-	-	-	98%	-
13) Nifer o staff Asiantaeth	-	⇒	21	-	26	21
14) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau	-	-	-	-	-	-
15) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau	-	-	-	-	-	-
16) Arolwg Staff (Bodlonrwydd Staff) - i'w gadarnhau	-	-	-	-	-	-

Rheolaeth Ariannol / Financial Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Cyllideb / Budget	Canlyniad / Actual	Amrywiad / Variance (%)	Rhagolygon o'r Gwariant / Forecasted Actual	Amrywiad a Ragwelir / Forecasted Variance (%)
01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw)	Gwyrdd / Green	↑	£124,037,000	-	-	£124,053,000	0.01%
02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf)	-	↓	£52,863,268	-	-	£38,786,031	-26.63%
03) Amrywiad yn y Gyllideb ar gyfer Talu Cyflogau hyd yma yn y Flwyddyn	Gwyrdd / Green	↑	£61,623,633	£61,705,719	0.13%	-	-
04) % y Gyllideb a wariwyd ar Gyflogau	-	-	-	-	62.50%	-	-
05) Cost staff asiantaeth	Coch / Red	↓	£173,451	£984,885	467.82%	-	-
06) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol	Coch / Red	↑	-	-	-1.91%	-	-
07) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd	-	-	-	-	-19.10%	-	-
08) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau)	Gwyrdd / Green	↑	-	-	8.22%	-	-
09) Swm a fenthycwyd	-	-	-	£110M	-	-	-
10) Chost benthyca	-	-	-	-	-	£8,450,000	-
11) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod	Ambr / Amber	-	-	81.58%	-	-	-
12) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	↑	-	98.40%	-	-	-
13) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	↑	-	98.90%	-	-	-
14) % yr Amrywiad Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	↑	-	96.50%	-	-	-
15) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	-	-	-	-	-	-	-
16) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf)	-	-	-	-	-	-	-

Rheoli Perfformiad / Performance Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 15/16 Result	Canlyniad 14/15 Result	Chwarter 15/16 Quartile
01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth	Gwyrdd / Green	↑	19.87	22	20.3	22	Isaf / Lower
02) LI/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn	Ambr / Amber	↑	87.5	93	90.8	93	-
03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol	Ambr / Amber	↑	81.25	90	-	-	-
04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd	Ambr / Amber	↓	5.8	1.5	-	-	-
05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phhecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach	-	-	50	-	-	-	-
06) PM20b - The percentage of adults who completed a period of reablement and have no package of care and support 6 months later	-	-	33.3	-	-	-	-
07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	Coch / Red	↓	80	100	82.79	93.53	Canolrif Isaf / Lower Median
08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith)	Gwyrdd / Green	↓	92.67	100	-	-	-
09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	Melyn / Yellow	↑	13.25	15	-	-	-
10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	↓	5.22	8	-	-	-
11) Presenoldeb – Cynradd (%)	-	-	-	-	-	-	-
12) Presenoldeb – Uwchradd (%)	-	-	-	-	-	-	-
13) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd	-	-	-	-	-	-	-
14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd	-	-	-	-	-	-	-
15) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+	-	↑	58.8	-	56.9	53.8	Canolrif Isaf / Lower Median
16) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC	-	↑	87.6	-	84.5	83.6	Canolrif Uchaf / Upper Median
17) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC	-	↓	89.4	-	91.8	87.8	Canolrif Uchaf / Upper Median
18) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS	-	↓	84.7	-	86.2	84.6	Isaf / Lower
19) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	↑	213k	210k	289k	285k	Isaf / Lower
20) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn	-	-	-	75k	284k	305k	-
21) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddibynnyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol)	Gwyrdd / Green	⇒	0	-	0	-	-
22) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol	Gwyrdd / Green	↑	94.1	92	89.5	92	-
23) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei gategoreiddio fel amser cynhyrchiol	Gwyrdd / Green	↓	79.7	75	74.6	-	-
24) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)	-	↓	30.8	25	33.7	25	-
25) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra	Melyn / Yellow	↓	92	94	95.1	95	Canolrif Isaf / Lower Median
26) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt	Gwyrdd / Green	↑	96.7	96.7	94	95	Uchaf / Upper
27) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w ailddedfyddio a/neu ei ailgylchu	Gwyrdd / Green	↑	65	60	59.5	58	Canolrif Isaf / Lower Median
28) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi	Gwyrdd / Green	↑	8.3	22	16.9	41	Canolrif Isaf / Lower Median
29) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol)	-	-	-	13.5	13.5	15	Canolrif Isaf / Lower Median
30) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth	Gwyrdd / Green	↑	94k	50k	132k	85k	-
31) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol	Ambr / Amber	↓	312k	334k	458k	540k	Canolrif Isaf / Lower Median

Rhaglen / Prosiect	Prosiectau Cysylltiedig	RAYG a Diweddariad byr
Moderneiddio Ysgolion	Ardal y Llannau	Strwythur allanol yr adeilad bellach wedi ei gwblhau.
	Ardal Caergybi	Y prosiect yn parhau i ddatblygu'n dda ac yn gweithredu ar amser. Dyddiad gorffen y prosiect yn parhau sef diwedd Mawrth 2017
	Bro Rhosyr a Bro Aberffraw	Amserlen ar gyfer cyflwyno'r Achos Busnes Llawn fel a ganlyn - gerbron y Pwyllgor Gwaith ar 13eg Chwefror a chyflwyno i Banel Cyfalaf LIC ym mis Chwefror / Mawrth 2017
	Llangefni	Pwyllgor Gwaith ar 19eg Rhagfyr wedi penderfynnu awdurdodi swyddogion i fynd ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol ac ymgynghori ar yr opsiynau dasn sylw
Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety	Gofal Ychwanegol Llangefni	Mae gwaith paratoi'r safle ar gyfer adeiladu yn parhau ar hen safle Ysgol y Bont. Mae cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Gweithredol Hafan Cefni yn cael eu cynnal. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn Haf 2018.
	Gofal Ychwanegol Amlwch	Y gwaith yn ardal Amlwch mewn sefyllfa o Oedi ac Adolygu tan 2018
	Gofal Ychwanegol De'r Ynys	Ystyriaethau holistaidd ar gyfer ardal newydd yn cael eu cysidro gan y Bwrdd
	Gofal Ychwanegol Garreglwyd	
	Byw â Chymorth	Cadarnhad pellach o strategaeth risg y prosiect ei angen yn ogystal ac ail-asesiad o'r sefyllfa ariannol cysylltiedig
	Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref	
	Allanoli Gwasanaethau wardeniaid	
Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd a diwylliant	Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant	Amserlen ddiwygiedig wedi ei gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid ar y 20/12/2016
	Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd	Amserlen ddiwygiedig wedi ei gytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid ar y 20/12/2016 – model newydd mewn lle erbyn Ionawr 2018
	Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid	Yr adrodd ar yr ail-fodelu arfaethedig y gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gyflwyno i'r PG wedi ei ymestyn i'r 13/02/2017 i gyd fynd ar ymgynghoriad ar y gyllideb
Hamdden		
Ynys Ynni		Wedi cael eu gwahodd i'r Bwrdd mis Ionawr 2017 i roi diweddariad ar ddyfodol y rhaglen
Lleoedd Llewyrchus, Llawn Addewid (VVP)		Yn symud ymlaen yn ei gyfanrwydd yn iawn. Rhai risgiau wedi'i cydnabod fel a nodir isod gyda Neuadd y Farchnad
Market Hall		Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad ar y mater i'r PG ar y 19eg o Ragfyr. Yr oedd yn adroddiad Rhan II gan ei fod yn digwydd yn ystod cyfnod o dendr byw ar y pryd.
Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	DIM DIWEDDARIAD	
Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC)		Cynllun Datblygu Cyrchfan wedi ei fabwysiadu'n gorfforaethol gan y PG. Angen gwell dealltwriaeth o beth sy'n ddisgwyliedig gan y Cyngor parthed ei wireddiad
Gwerthuso Swyddi a Statws Sengl		
Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)		
Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid		
Caffael		
Effeithlonrwydd Ynni		
Parhad Busnes		

ALLWEDD LLIW (RAG): **Cwblhawyd** **Ar y gweill** **Ar ei hôl hi – angen penderfyniadau allweddol/cefnogaeth** **Hwyr** (gwyn = heb ddechrau)

Strategaeth TGCh		
Moderneiddio a Chydlynu Cyngor am Fudd-daliadau		
WCCIS		
Rheoli Polisi		

Prosiectau a gwblhawyd

Gwelliannau Civica	Busnes fel arfer i Adnoddau bellach			
Gweithio'n Gallach	Asedau	TGCh	Datblygu Gweithlu	Cyswllt Môn
Tai Fforddiadwy	Prosiect wedi newid. O ganlyniad y Bwrdd wedi cytuno i'w dynnu. Yr USC wedi cytuno i roi diweddariad i'r Bwrdd o ddatblygiadau cysylltiedig i'r dyfodol, dyddiad i'w gytuno			

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I'R:	SGRIWTINI
DYDDIAD:	13 MAWRTH 2017
PWNC:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2016/17
AELOD (AU) PORTFFOLIOI:	Y CYNGHORYDD H E JONES
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES
AWDUR YR ADRODDIAD:	CLAIRE KLIMASZEWSKI
FFÔN:	01248 751865
E-BOST:	ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	d / b
A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau	
<ol style="list-style-type: none"> 1. Ym mis Mawrth 2016, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2016/17 gyda gwariant net o £124.037m ar gyfer gwasanaethau i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol. 2. Yng nghyllideb 2016/17, roedd angen gwneud arbedion gwerth £3.46m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol ac adlewyrchir llwyddiant neu fethiant i gyflawni'r rhain yn y tanwariant / gorwariant a ddangosir. 3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Rhagfyr 2016. Hefyd, ceir crynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan. 4. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2016/17 yn chwarter 3, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Dreth Gyngor, yw gorwariant o £16k. Mae hyn yn cyfateb i 0.01% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £660k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2. 5. Argymhellir : - <ol style="list-style-type: none"> (i) Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r perfformiad ariannol hyd yma. (ii) Caniatáu trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn y gyllideb graenau ffyrdd i gronfa wrth gefn glustnodedig. Byddai'r arian hwn o gymorth i gyllido costau ychwanegol yn y dyfodol yn sgil tywydd garw dros y gaef. 	
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?	
d / b	
C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.	
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi	
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
Ydi	

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Byddwn yn ymgynghori fel rhan o'r UDA
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Craffu	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall / au	
E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Troseddau ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2016/17 • Atodiad B - Tabl o'r Canlyniadau Refeniw a ragwelir ar gyfer 2016/17, Chwarter 3 • Atodiad C - Crynodeb o Gyllidebau Wrth Gefn 2016/17 • Atodiad CH - Crynodeb o'r Perfformiad Ariannol a Ragwelir o ran Cyflawni Arbedion Cyllidebol 2016/17 		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Cyllideb Refeniw 2016/17 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2016).		

MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3, 2016/17

1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Agoriadol

- 1.1 Balans y gronfa gyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn oedd £7.886m. Fodd bynnag, yn erbyn y ffigur hwn, mae angen caniatáu ar gyfer ymrwymiad posib o leiaf £ 2.15m i setlo hawliadau tâl cyfartal sy'n weddill. Mae hynny'n gostwng lefel y gronfa wrth gefn sydd heb ei hymrwymo i £5.736m, sydd £736k yn uwch na'r isafswm o £5m a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2016/17. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor drin y gwariant fel gwariant cyfalaf, a fyddai'n golygu y gellid ei godi fel tâl ar y gyllideb refeniw dros nifer o flynyddoedd. Os bydd yn llwyddo, mae'n golygu y bydd y £2.15m yn dod yn gyllideb sydd heb ei hymrwymo ac yn cael ei hychwanegu'n ôl i'r gronfa wrth gefn gyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor.

2. Perfformiad Ariannol a Ragwelir fesul Gwasanaeth

- 2.1 Mae manylion perfformiad ariannol pob gwasanaeth ar gyfer y cyfnod a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob un wedi eu nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £756 (0.70%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, yn achos Cyllid Corfforaethol, rhagwelir tanwariant o £1.004m (6.31%) sy'n gwrthbwysu'r gorwariant a ragwelir ar wasanaethau. Yn ogystal, rhagwelir diffyg o £264k o ran casglu'r Dreth Gyngor. Cynydda hyn y rhagolwg refeniw ar gyfer 2016/17 i orwariant o £16k (0.01%). Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (£100k neu fwy). Mae hon yn well sefyllfa nag yr adroddwyd arni yn chwarter 2 pan ragwelwyd cyfanswm gorwariant o £660k.

Crynodeb o'r amrywiadau a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol ar 31 Rhagfyr 2016	
	(Tan) / Gorwariant £ 000
Dysgu Gydol Oes	700
Gofal Cymdeithasol i Blant	718
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	(258)
Gwasanaethau Eiddo	(175)
Rheolaeth Gorfforaethol	(100)
Cyllid Corfforaethol	(1,004)
Casglu'r Dreth Gyngor	264
Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy'n is na £100k)	(129)
Gor/(Tan)wariant Net ar wasanaethau	16

3. Eglurhad ar yr Amrywiadau sylweddol

3.1 Dysgu Gydol Oes

3.1.1 Addysg Ganolog

3.1.1.1 Roedd gwariant y gwasanaeth £604k (24.91%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gorwario £775k (21.4%) ym mlwyddyn ariannol 2016/17. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu o gymharu â'r tanwariant o £167k yr adroddwyd arno yn chwarter 2. Mae cynnydd yn nifer y lleoliadau all-sirol arbenigol wedi arwain at bwysau sylweddol ar y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth, ac amcangyfrifir y bydd gorwariant o £405k yn y cyllidebau hyn. Yn ogystal, mae cynnydd pellach yn y costau cludo disgyblion i'r ysgol, a rhagwelir y bydd gorwariant o £310k. Mae yna hefyd nifer o fân danwariannau a gorwariannau eraill. Mae cais y gwasanaeth am arian buddsoddi i arbed i'w fuddsoddi yn y System 'One Management' bellach wedi ei gymeradwyo, ac fe ddylai hynny fod o gymorth i leihau costau cludiant ysgol (tacsis) o 2017/18. Mae'r holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 ar darged i gael eu cyflawni.

3.1.2 Diwylliant

3.1.2.1 Roedd gwariant y gwasanaeth hwn yn £149k (13.42%) yn is na'r gyllideb broffiledig ar ddiwedd y cyfnod, a'r canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £75k (5.28%). Mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £53k yr adroddwyd arno yn chwarter 2. Disgwylir gorwariant o £10k ar Amgueddfeydd ac Oriolau a thanwariant o £60k ar y Gwasanaethau Llyfrgell. Rhagwelir hefyd y bydd tanwariant o £25k ar gyfer Ynys Lawd, ac mae £16k ohono oherwydd incwm dros ben yn dilyn cynnydd yn y ffioedd. Mae'r holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 ar darged i gael eu cyflawni.

3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

3.2.1 Roedd gwariant ar y gwasanaeth £605k (3.58%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod hwn. Fodd bynnag, cyllidir y rhan fwyaf ohono o grantiau. Y canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yw gorwariant o £44k (0.20%). Mae hyn yn well na'r gorwariant o £143k a ragwelwyd yn chwarter 2.

3.2.2 Mae'r amrywiadau a ragwelir yn y canlyniad a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir gorwariant o £44k;
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £173k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £461k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £141k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o £722k; a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: rhagwelir tanwariant o £53k.

3.2.3 Mae'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw a gall cynnydd bach yn nifer y lleoliadau arwain at gynnydd sylweddol yn y costau – mae hyn yn dibynnu ar gymhlethdod y pecynnau gofal. Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf arwyddocaol yn y maes Anableddau Dysgu. Mae'r pwysau ar gyllideb y gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi gostwng ers chwarter 2, er y gwelwyd pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwasanaethau Anabledd Corfforol. Mae dau leoliad preswyl newydd a ffioedd uwch wedi cynyddu'r gorwariant a ragwelir yn y gwasanaethau Anabledd Corfforol o'r £8k yr adroddwyd arno yn chwarter 2 i £173k. Fodd bynnag, cymerwyd camau o fewn yr Uned Ddarparu i gynyddu'r tanwariant i £722k, ac mae tanwariant o £53k mewn costau rheoli a chymorth wedi gwrthbwysu llawer o'r pwysau cyllidebol hyn.

- 3.24** Mae'r rhagamcan cyllidebol wedi gwella ers chwarter 2, yn bennaf oherwydd llai o bwysau yn y misoedd diwethaf ar y gyllideb ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl, gwasanaethau i'r Henoed a chynnydd yn y tanwariant yn yr Uned Ddarparu.
- 3.2.5** Nod y gwasanaeth yw lleihau'r gorwariant drwy ddwyn ymlaen arbedion penodol yn 2017/18 i'r flwyddyn gyfredol. Mae arbedion wedi'u targedu ar gyfer dau unigolyn a leolwyd mewn lleoliadau arbenigol mewn siroedd eraill. Bydd y gwasanaeth yn parhau i reoli niferoedd y lleoliadau trwy banel adnoddau wythnosol ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn / Anabledd ac o fewn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu. Mae'r panelau hyn yn chwarae rôl hanfodol wrth reoli gwariant ac i sicrhau y comisiynir gwasanaethau priodol ac sydd mor gost-efeithiol â phosib.

3.3 Gwasanaethau Plant

- 3.3.1** Roedd y gwariant ar y gwasanaeth £513k (9.05%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3 a rhagwelir y bydd gorwariant o £718k (9.59%) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys gorwariant o £721k a ragwelir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Mae hwn yn gynydd bychan o gymharu â'r gorwariant o £683k yr adroddwyd arno yn chwarter 2.
- 3.3.2** Mae'r gorwariant a ragwelir yn cael ei achosi gan gynydd yn nifer y lleoliadau arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r galw am y gwasanaethau statudol hyn yn anodd ei reoli a gall un neu ddau o achosion cymhleth olygu cynnydd sylweddol yn y gwariant mewn cyfnod byr o amser. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn chwarter 2, yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2016 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant i ariannu'r tîm Trothwy Gofal. Bydd y tîm hwn yn mynd ati mewn modd ataliol i sicrhau lles plant ac mae'n anelu at ostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar Ynys Môn. Mae £100k wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2016/17 o gronfeydd wrth gefn a bydd £241k yn cael ei ychwanegu at gyllideb y gwasanaeth ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn dechrau gweld manteision y prosiect hwn o ran osgoi costau o 2017/18 ymlaen.

3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

- 3.4.1** Roedd y gwasanaeth hwn £114k (8.62%) yn tu ôl i'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod. Disgwylir y bydd gan y gwasanaeth danwariant o £50k (6.05%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £12k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 2. Disgwylir y bydd tanwariant o £30k ar y Strategaeth Dai a pharheir i ragweld tanwariant o £40k ar weinyddiaeth Tai. Rhagwelir gorwariant o £10k yr un yng Nghanolfan JE O'Toole ac ar Wasanaethau Digartrefedd. Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i gwblhau a gweithredu'r newidiadau yn y gwasanaeth cyngor lles ond mae'n annhebygol bellach y gwelir yr arbediad yn 2016/17. Bydd adnoddau'r gwasanaeth yn cwrdd â'r diffyg hwn.

3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

- 3.5.1.1** Roedd y gwasanaeth yn gyffredinol wedi gwario £281k (14.68%) yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Gellir priodoli £153k o'r tanwariant i broblemau proffilio cyllidebau grantiau ond bydd y rhain wedi eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £9k (0.47%) erbyn 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £17k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.
- 3.5.1.2** Rhagwelir y bydd gan elfen Datblygu Economaidd y Gwasanaeth danwariant o £41k oherwydd cynnydd yn yr incwm o logi cyfleusterau'r ganolfan ac ad-daliadau mewnol. Mae swyddi gweigion hefyd yn cyfrannu at y tanwariant.

- 3.5.1.3** Mae disgwyl y bydd tanwariant o £53k yn yr Adain Forwrol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i reoli swyddi gweigion a champau eraill fel gostwng gwariant dydd i ddydd.
- 3.5.1.4** Rhagdybir y bydd gorwariant o £85k yn y Gwasanaeth Hamdden ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, yn rhannol, o ganlyniad i gau pwll Canolfan Hamdden Caergybi yn ystod cyfnod yr haf ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol ac atgyweiriadau ar ôl difrod storm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf sydd wedi lleihau lefel yr incwm a dderbyniwyd.

3.5.2 Rheoleiddio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

- 3.5.2.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gwario £322k (15.27%) yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £258k (10.35%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £170k yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 2. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd incwm dros ben oddeutu £140k mewn perthynas â datblygiadau mawr a bydd yr arian hwnnw'n cael ei roi mewn cronfa wrth gefn glustnodedig i gefnogi gweithrediad datblygiadau mawr yn y dyfodol.
- 3.5.2.2** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau yn yr Adran Reoleiddio yn tanwario ac eithrio 'Planning Delivery Wales', Cefn Gwlad a'r Arfordir, Safonau Masnach a Marchnadoedd sydd, fe ragdybir, yn debygol o orwario rhywfaint.

3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

3.6.1 Priffyrdd

- 3.6.1.1** Roedd y gwasanaeth wedi gwario £57k (0.88%) yn llai na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd y cyfnod, ond rhagwelir y bydd tanwariant o £16k (0.25%) erbyn diwedd y flwyddyn os bydd y tywydd mwyn dros y gaeaf yn parhau. Mae hyn yn well na'r rhagolwg yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 2. Nid yw'r canlyniad hwn a ragwelir yn cynnwys unrhyw ragamcan mewn perthynas â'r cyllidebau gwaith gan fod y rhain yn cael eu heffeithio gan ofynion cynnal a chadw dros y gaeaf ac unrhyw ddifrod storm. Mae yna hefyd ansicrwydd ynghylch costau cludiant cyhoeddus ac, o'r herwydd, rhagdybiwyd cyllideb gytbwys ar gyfer y rhain. Er nad yw effaith cyllidebau gaeaf wedi ei chynnwys yn y rhagolygon, dylid trosglwyddo unrhyw danwariant yn y gyllideb graeanu i gronfa wrth gefn glustnodedig. Byddai hynny o gymorth i gwrdd â chostau ychwanegol yn y dyfodol yn sgil tywydd garw dros y gaeaf.
- 3.6.1.2** Mae'r gwelliant yn bennaf oherwydd camau a gymerwyd i leihau gwariant ar waith stryd sydd wedi arwain at amcanfyfrif o danwariant o £80k. Disgwylir gorwariant o £76k yn y Gwasanaeth Dylunio Gwaith Cynnal a Chadw ac amcangyfrifir gorwariant o £50k yn y gwasanaeth rheoli cynnal a chadw. Mae yna nifer o fân orwariannau a thanwariannau eraill.

3.6.2 Gwastraff

- 3.6.2.1** Roedd y gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £63k (1.02%) yn llai na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd Rhagfyr 2016. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gwelliant sylweddol yn y canlyniad a rhagwelir tanwariant o £60k (0.96%). Amcangyfrifir bod hyn yn ostyngiad o £205k yn y gwariant o gymharu â'r gorwariant o £145k yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

3.6.2.2 Mae pwysau cyllidebol yn parhau o fewn y gwasanaeth a disgwylir gorwariant o £60k gyda'r Safle Cynhyrchu Trydan a Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn. Fodd bynnag, mae costau cael gwared ar wastraff wedi gostwng yn sylweddol yn sgil casglu bob tair wythnos a threfniadau amgen i gael gwared ar y gwastraff. Ni wyddys beth fydd effaith net y cynnydd yn y costau casglu a'r gostyngiad yn y costau gwaredu hyd yma. Disgwylir tanwariant o £180k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn y Gwasanaeth Cael Gwared ar Wastraff oherwydd y newidiadau hyn.

3.6.3 Eiddo

3.6.3.1 Roedd tanwariant o £209k (20.39%) yn y Gwasanaethau Eiddo o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £175k (19.12%) ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £115k a ragwelwyd yn chwarter 2.

3.6.3.2 Rhagwelir y bydd pwysau ar gyllidebau, fel gorwariant o £100k ar waith trwsio a chynnal a chadw, costau casglu gwastraff a chostau rhesymoli swyddfeydd yn cael eu gwrthbwysu gan: tanwariant ar gostau gweithwyr (£70k), tanwariant ar Drethi Annomestig (£100k), gwasanaeth Glanhau (£80k) a thanwariant o £30k yr un ar renti a chyfleustodau.

3.7 Trawsnewid

3.7.1 Roedd gwariant y Gwasanaeth Trawsnewid £386k (14.94%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod, fodd bynnag, bydd llawer o'r costau hyn yn cael eu cyllido o gronfeydd wrth gefn a grantiau a glustnodwyd a fydd yn cael eu credydu i gyllideb y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £50k (1.37%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn sydd yr un fath â'r tanwariant yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

3.7.2 Bydd gorwariant o £ 50k ar gostau TGCh yn cael ei wrthbwysu gan y tanwariant a ragwelir yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol (£50k) a Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd (£50k).

3.8 Adnoddau

3.8.1 Roedd cyllideb y Swyddogaeth Adnoddau yn dangos tanwariant o £91k (3.57%) erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £92k (3.37%) yn y swyddogaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £131k yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

3.8.2 Mae'r pwysau cyllidebol allweddol yn ymwneud â thanysgrifiadau technegol (£15k), ymgynghoriaeth (£46k), costau cefnogi meddalwedd (£40k), costau banc (£30k) a staffio (£25k). Bydd grantiau annisgwyl (£44k) ac arbedion ar gostau staffio yn y gwasanaeth archwilio (£20k) o gymorth i ostwng y gorwariant net.

3.9 Busnes y Cyngor

3.9.1 Roedd y swyddogaeth wedi gwario £19k (1.79%) yn fwy na'r gyllideb a broffiliwyd ar 31 Rhagfyr, 2016. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i ragweld tanwariant o £62k (4.12%) ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3.9.2 Y rhesymau mwyaf arwyddocaol am hyn yw tanwariant disgwylidig yn y Gwasanaethau Pwyllgor (£42k) a phriddiannau tir yn cynhyrchu mwy o incwm (£25k) na'r disgwyl. Mae yna fân orwariannau a thanwariannu eraill.

3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

3.10.1 Roedd y gwasanaeth wedi gwario £141k (7.45%) yn llai na'r gyllideb broffiledig ar ddiwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £18k (0.94%) ar ddiwedd y flwyddyn.

3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

3.11.1 'Roedd tanwariant o £72k (12.90%) yn y swyddogaeth ar 31 Rhagfyr 2016 a rhagwelir tanwariant o £100k (13.38%) ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion yn deillio o ailstrwythuro Rheolaeth Strategol.

4. Cyllid Corfforaethol

4.1 Disgwylir y bydd tanwariant o £1,004k (6.31%) ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol.

4.2 Mae'r gyllideb budd-daliadau yn cynnwys budd-daliadau tai, taliadau tai dewisol a chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Amcangyfrifir y bydd tanwariant o £274k yn y gyllideb. Yr elfen sylweddol ohono yw tanwariant o £501k oherwydd bod y llwyth achosion yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae cynnydd o £150k a amcangyfrifir yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg a chostau o £77k nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymhorthdal yn lleihau'r ffigwr.

4.3 Amcangyfrifir bod y prosiect gweithio'n gallach £302k yn brin o'i darged arbedion corfforaethol Mae yna arbedion y gellir eu priodoli'n glir i'r prosiect, er enghraifft, gellir credydu cau swyddfeydd yn erbyn y gyllideb hon. Fodd bynnag, mae arbedion eraill mewn perthynas â chostau staff gweinyddol a gweinyddiaeth gyffredinol yn cael eu gwireddu yng nghyllidebau'r gwasanaethau ac nid yw'r arbedion hyn wedi eu cyfrif yn erbyn y targed hwn. Nid oes dim i'w ddweud na fydd y prosiect Gweithio'n Gallach yn cyflawni'r arbedion a ragwelwyd ar y cychwyn.

4.4 Mae yna ddiffyg sylweddol hefyd o ran y llog a dderbynnir ar adneuron banc yr Awdurdod (£105k), ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda thorri'r gyfradd banc swyddogol o 0.50% i 0.25%. Mae'r gorwariannau hyn yn cael eu gwrthbwyso, fodd bynnag, oherwydd mae'r costau benthyca'n is gan fod yr Awdurdod yn defnyddio ei falansau ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn hytrach na benthyca'n allanol. Mae cynnydd yng nhyfran y CRT o'r ffioedd llog yn dilyn tynnu allan o'r system cymhorthdal ar gyfer y CRT hefyd yn gostwng costau llog i Gronfa'r Gyngor. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd y benthyca mewnol hwn yn bosib yn y dyfodol oherwydd y prosiectau cyfalaf sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

4.5 Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â chyllidebau wrth gefn ar 31 Rhagyr 2016. Cafodd cyllideb ar gyfer cronfeydd wrth gefn werth £2.039m ei chymeradwyo fel rhan o gyllideb 2016/17. Mae £620k net wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau i ariannu prosiectau penodol neu faterion cyllidebol a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151. Yn ogystal, mae £1,507k wedi'i ymrwymo o'r arian wrth gefn i ariannu costau a gymeradwywyd a disgwylir y bydd tanwariant o £150k yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Yn ogystal, rhagwelir tanwariant o £143k yn y gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer y gwasanaeth Oedolion. Rhagwelir cyfanswm o £293k o danwariant felly yn y cronfeydd wrth gefn. Bydd y cyllidebau wrth gefn sy'n weddill wedi eu gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn yn unol â'r gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer defnyddio cyllidebau wrth gefn.

5. Casglu'r Dreth Gyngor

5.1 Amcangyfrifir y bydd y Dreth Gyngor a gasglwyd £88k yn brin o'r targed. Yn ogystal, rhagwelir ar hyn o bryd y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus yn £176k. Felly, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y Gronfa Dreth Gyngor £264k (0.21%) yn brin o'r targed, a hynny'n bennaf oherwydd y gofyniad i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer dyledion drwg. Mae hon yn sefyllfa waeth na'r diffyg o £ 198k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.

6. Arbedion Cyllideb 2016/17

- 6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £3.06m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17 a £400k ychwanegol o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol eu cadw mewn cronfa wrth gefn. Yn Atodiad CH, ceir crynodeb o'r perfformiad disgwylidig yn erbyn yr arbedion cyllidebol hyn ar gyfer y flwyddyn. Mae £2.476m (80.9%) o'r arbedion eisoes wedi eu cyflawni neu fe dybir y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.
